

ARCHWILIAD
CYNLLUN DATBLYGU LLEOL NEWYDD (2018-2033)
PEN-Y-BONT AR OGWR

RHESTR O FATERION A CHWESTIYNAU

**M4 (1) Datganiad Sesiwn Gwrandawriad Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar
Ogwr**

Mater 4: Lleoedd Cynhyrchiol a Mentrus – Cyflogaeth a Seilwaith

Mater - A yw'r strategaeth economaidd yn gydlynus ac yn seiliedig ar broses baratoi glir a chadarn? A fydd yn mynd i'r afael â'r Materion Allweddol a'r Amcanion Strategol yn effeithiol ac yn effeithlon? A yw'r polisiau'n realistig ac yn briodol yng ngoleuni dewisiadau amgen perthnasol ac a ydynt yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn a chredadwy?

Cyflogaeth

1. A yw'r Astudiaeth Sylfaen Dystiolaeth Economaidd yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn a chredadwy? ac a yw'r canfyddiadau'n ddigonol i lywio strategaeth economaidd y Cynllun?

Paratowyd y strategaeth gyflogaeth a'r sylfaen dystiolaeth gysylltiedig yn unol â Chanllawiau Ymarfer Llywodraeth Cymru 'Adeiladu Sylfaen Dystiolaeth Datblygu Economaidd i Gefnogi Cynllun Datblygu Lleol' (2015).

Cwblhawyd yr Astudiaeth Sylfaen Dystiolaeth Economaidd (EEBS 2019, SD69) yn 2019 ac ymgwymerwyd ag adolygiad tir cyflogaeth, cyfrifwyd gofynion tir cyflogaeth ac ystyriwyd ffactorau cyflogaeth lleol a 'mwy na lleol' yng nghyd-destun strategaeth dwf y CDLI newydd. Mae'r EEBS yn darparu argymhellion sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar raddfa a dosbarthiad yr angen cyflogaeth, y tir sy'n fwyaf addas ar gyfer diwallu'r angen, ynghyd â pholisiau cysylltiedig a dyraniadau safle. Cynhaliwyd diweddariad atodol (Diweddariad Sylfaen Dystiolaeth Economaidd, 2021, SD70) hefyd yn 2021 i ystyried y gweithlu, swyddi a goblygiadau'r economi sy'n deillio o'r rhagamcanion wedi'u hadnewyddu yn 2018 (cyhoeddodd LIC amcanestyniadau cartref a phoblogaeth newydd ym mis Awst 2020) ynghyd ag effeithiau cau Safle Gweithgynhyrchu Ford ym mis Medi 2020. Mae'r sylfaen dystiolaeth hon sydd wedi'i hadnewyddu yn gadarn a chredadwy, yn cyflawni'r gofynion polisi cenedlaethol a amlinellir ym Mholisi Cynllunio Cymru (PPW) ac yn darparu sail dryloyw i lywio'r CDLI Newydd.

Mae angen ymateb tir cyflogaeth cadarnhaol er mwyn sicrhau ecwilibriwm rhwng cartrefi newydd, gweithlu medrus sy'n tyfu a chyfleoedd gwaith er mwyn ysgogi'r economi leol i ranbarthol. Dadansoddodd Diweddariad EEBS a 2021 yr hwb hwn

a ragwelir i'r gweithlu ochr yn ochr â thueddiadau cyflogaeth eraill gan gynnwys y defnydd o dir cyflogaeth yn y gorffennol a rhagolygon economaidd yn y sector. Mae'r sylfaen dystiolaeth sy'n deillio o hynny wedi llywio graddfa a dosbarthiad yr angen cyflogaeth a'r tir sy'n fwyaf addas ar gyfer diwallu'r angen hwnnw dros gyfnod y cynllun yng nghyd-destun Polisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol 23, wedi ei gyfiawnhau ymhellach ym Mhapur Cefndir Cyflogaeth 7: Cyflogaeth (SD40), ac a nodir ym Mholisi SP11.

2. Beth yw'r prif sbardunau ar gyfer newid ym marchnad gyflogaeth Pen-y-bont ar Ogwr? a sut mae'r Cynllun wedi mynd i'r afael â'r ystyriaethau hyn?

Mae economi Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn gymharol fwy dibynnol ar y sector gweithgynhyrchu na Chymru gyfan, ac mae angen cynnal sylfaen weithgynhyrchu gref yr ardal o fewn lleoliadau cynaliadwy, gan gefnogi adnewyddu economaidd-gymdeithasol cymunedau difreintiedig. Mae'r un mor bwysig arallgyfeirio'r sector cyflogaeth a denu mewnfuddsoddiad ar draws yr ardal drwy dwf economaidd cynaliadwy. Mae gan y CDLI newydd rôl allweddol yn hyn o beth, yn arbennig o ran diogelu'r ddarpariaeth cyflogaeth bresennol, dyrannu safleoedd addas ar gyfer datblygu a darparu'r seilwaith sydd ei angen i hybu cyfleoedd economaidd-gymdeithasol a gwella cysylltedd. Mae'r dull rhyng-gysylltiedig hwn yn allweddol er mwyn diwallu anghenion a gofynion ystod o senarios cyflogaeth posibl yn y dyfodol, a thrwy hynny sicrhau y gall y CDLI alluogi adferiad economaidd o'r pandemig a ffyniant parhaus.

Disgwylir i dros 30% o boblogaeth y Fwrdeistref Sirol fod yn 60+ oed erbyn 2033. Gyda thwf absoliwt a chymharol ar draws y grŵp oedran hwn, mae'n debygol y bydd gostyngiad eang mewn cyfraddau gweithgarwch economaidd lleol os nad yw'r CDLI newydd yn hwyluso lefelau cynaliadwy o dwf economaidd i wrthbwysu'r ffenomen hon. Mae'r CDLI newydd felly yn ceisio darparu mathau cynaliadwy o dwf a fydd yn denu a chadw aelwydydd sy'n economaidd weithgar o fewn y Fwrdeistref Sirol. Fel y cyfiawnhad o fewn Papur Cefndir 2: Opsiynau Twf Strategol (SD35), mae'r Strategaeth Adfywio a Thwf Cynaliadwy yn cael ei ysgogi i raddau helaeth gan aelwydydd o fewn y grŵp oedran 35-44. Disgwylir i'r twf hwn gefnogi cynnydd mewn pobl mewn cyflogaeth yn y gweithle dros gyfnod y Cynllun, i'w gyflawni drwy ddarparu hyd at 7,500 o swyddi ychwanegol. Bydd y cynnydd a ragwelir yn y boblogaeth oedran gweithio a'r gofyniad cysylltiedig o ran annedd yn cynnig cwmpas sylweddol i drigolion fyw a gweithio yn yr ardal, gan gefnogi hyd at 500 o swyddi newydd y flwyddyn. Felly, mae 71.7 hectar o dir sydd ar gael yn cael ei ddyrannu ar gyfer datblygu cyflogaeth i ddiwallu anghenion y farchnad gyflogaeth a darparu ar gyfer y swyddi newydd a nodwyd.

Mae cyflawni portffolio eang a chytbwys o ddefnydd cyflogaeth yn ganolog i Strategaeth yr CDLI newydd. Bydd hyn yn caniatáu i'r economi leol ddenu defnydd cyflogaeth ar werth uwch (gan gynnwys gwyddorau bywyd, adeiladu, ynni, datgarboneiddio a thelegyfathrebu) yn ogystal â chefnogi'r sylfaen weithgynhyrchu sylweddol sy'n parhau i fod yn agwedd bwysig ac yn sbardun twf i'r economi leol.

Bydd y dull hwn yn helpu i leihau'r angen am gymudo allan o'r ardal ac yn annog mwy o gymunedau hunangynhwysol, rhyng-gysylltiedig, a thrwy hynny gyflawni ecwilibriwm rhwng nifer y cartrefi a ddarperir a'r cyfleoedd gwaith a ddisgwylir.

Gellir esbonio'r Strategaeth Dwf yn gryno gan yr acronym 'CARM' yn Saesneg, sy'n crynhoi bwriad y Strategaeth i wrthbwysu (**C**ounter-balance) y boblogaeth sy'n heneiddio drwy ddenu (**A**ttracting) aelwydydd medrus, economaidd weithgar, cadw (**R**etaining) aelwydydd medrus, economaidd weithgar a gwneud y Fwrdeistref Sirol yn fagnet (**M**agnet) i gyflogwyr ehangu o fewn iddi neu symud i mewn iddi.

3. Faint o swyddi newydd yr amcangyfrifir eu bod yn cael eu creu o ganlyniad i strategaeth economaidd y Cynllun? Ac ym mha sectorau?

Mae'r Astudiaeth Sylfaen Dystiolaeth Economaidd (EEBS 2019, SD69) a'r Diweddariad (2021, SD70) wedi modelu'r berthynas rhwng poblogaeth a chyflogaeth gan ddefnyddio rhagdybiaethau allweddol ar gyfraddau gweithgarwch economaidd, diweithdra a chymudo. Mae'r gyfres ddiweddaraf o senarios sy'n seiliedig ar 2018 yn arwain at effaith fwy cadarnhaol ar amcanestyniadau gweithlu na'r senarios sy'n seiliedig ar 2014, gyda thwf poblogaeth oedran gweithio uwch. Mae hyn yn arbennig o bwysig wrth ystyried y cysylltiad rhwng newid poblogaeth Pen-y-bont ar Ogwr a maint a phroffil ei gweithlu preswyl.

Defnyddiodd Diweddariad EEBS (2021, SD70) fodelu Experian i ragweld y gallai Strategaeth Twf y CDLI newydd gefnogi hyd at 7,500 o bobl gyflogedig dros gyfnod y cynllun (h.y. 500 y flwyddyn), yn seiliedig ar yr asesiad diweddaraf o gyfraddau gweithgarwch economaidd. Fodd bynnag, daeth yr Astudiaeth i'r casgliad y byddai angen ymateb tir cyflogaeth cadarnhaol i sicrhau y bydd busnesau'n dymuno ehangu a/neu sefydlu ym Mhen-y-bont ar Ogwr o ganlyniad i'r cynnydd yn y cyflenwad llafur. Felly, mae'r CDLI newydd yn ceisio sicrhau y bydd cyflenwad cyfatebol o dir cyflogaeth ar gael i ddarparu ar gyfer pob un o'r 7,500 o swyddi newydd ar y sail y bydd y cartrefi a'r llafur newydd yn ysgogi'r economi. Fel arall, byddai diffyg cyfle economaidd, a fyddai'n cyfyngu ar y nifer sy'n manteisio ar dir cyflogaeth, atal creu swyddi lleol, peryglu gormod o gymudo allan ac ysgogi newid hirdymor negyddol mewn proffiliau mudo.

Mae'r galw am lafur hefyd yn cael ei fodelu drwy gysylltu'r galw yn yr ardal leol â'r galw rhanbarthol am swyddi ar gyfer pob sector diwydiant. O ran rhagweld twf yn y dyfodol mewn sectorau, mae'r EEBS yn dweud nad yw'n briodol i 'gynyddu' rhagolwg y sector yn unig oherwydd rhagwelir y bydd rhai sectorau'n dirywio ac mae'r cynnydd mewn llafur yn annhebygol o arafu'r duedd hon. Ystyrir ei bod yn fwy priodol ystyried y sectorau 'cynyddol' gyda'r disgwyliad y bydd y rhain yn tyfu'n gyflymach mewn ymateb i fwy o gyflenwad llafur. O'r herwydd, mae'n rhesymol tybio bod tua hanner y twf swyddi yn debygol o ddigwydd mewn swyddi yn gysylltiedig â gweithgarwch 'gwasanaethu pobl', yn arbennig y sector gwasanaethau cyhoeddus (42%) a llety, gwasanaethau bwyd a hamdden (8%). Disgwylir twf hefyd mewn adeiladu (8%), cyfanwerthu a manwerthu (17%),

trafnidiaeth a storio (8%), gwybodaeth a chyfathrebu (8%) a gwasanaethau proffesiynol (8%).

Nid yw rhagweld nifer y swyddi newydd yn ôl y sector yn y dyfodol yn wyddoniaeth union. Felly, mae'r (EEBS 2019, SD69) a'r Diweddariad (2021, SD70) yn gwneud y dybiaeth gadarnhaol iawn bod pob swydd newydd yn cynhyrchu galw am ofod llawr dosbarth B newydd ac mae angen lle newydd ar bob gweithiwr newydd (person cyflogedig) ar gyfer un swydd newydd. Er na fydd pob swydd yn wir yn gofyn am dir dosbarth B a gofod llawr, mae'r sylfaen dystiolaeth yn un bwylllog. Bydd hyn yn sicrhau bod faint o dir cyflogaeth sy'n cael ei ddyrannu yn ddigonol er mwyn peidio â chyfyngu'r twf economaidd sydd ei angen i ddarparu 7,500 o gyfleoedd gwaith. Fel arall, pe bai'r CDLI yn methu â darparu tir cyflogaeth addas i alluogi'r rhagolwg hwn i'w wireddu yna byddai twf economaidd yn cael ei gyfyngu, a thrwy hynny amharu ar y gallu i fodloni Nodau ac Amcanion y Cynllun.


Mae cyflawni portffolio eang a chytbwys o ddefnydd cyflogaeth yn ganolog i'r strategaeth economaidd. Bydd hyn yn caniatáu i'r economi leol ddenu defnydd cyflogaeth ddwys â gwerth ychwanegol gan gynnwys, gwyddorau bywyd, adeiladu, ynni a datgarboneiddio, a sectorau telathrebu. Mae hyn yn ychwanegol at gefnogi a chynnal y sylfaen weithgynhyrchu sylweddol a defnyddiau dosbarth B traddodiadol sy'n agwedd bwysig ac yn sbardun twf i'r economi leol, nawr ac yn y dyfodol. Cyfeiriwch hefyd at SD40 Papur Cefndir 7: Cyflogaeth.

4. Beth yw'r berthynas gyflogaeth drawsffiniol? pa gyfran o'r swyddi presennol o fewn Pen-y-bont ar Ogwr sy'n cael eu llenwi gan weithwyr o'r tu allan i'r Fwrdeistref Sirol? faint o drigolion Pen-y-bont ar Ogwr sy'n teithio i'r gwaith o'r tu allan i'r Fwrdeistref Sirol? a sut mae'r symudiad hwn wedi ei gyfrif amdano yn ei ragolygon cyflogaeth?

Mae cymudo yn fater cymhleth ac nid yw cymudo trawsffiniol yn anghynladwy yn awtomatig. Mewn rhai rhannau o'r fwrdeistref, gall y lleoliad mwyaf cynaliadwy i bobl weithio fod mewn awdurdod cyfagos ac i'r gwrthwyneb. Fodd bynnag, mae'r berthynas gyflogaeth drawsffiniol wedi'i chyfrif amdani yn y modelu economaidd Experian sy'n sail i'r EEBS (2019, SD69) a Diweddariad EEBS (2021, SD70).

Yn y lle cyntaf, mae'r EEBS wedi asesu patrymau llifoedd cymudo i mewn ac allan o Ben-y-bont ar Ogwr a gymerwyd o Gyfrifiad 2011 (y data mwyaf perthnasol ar adeg ei gyhoeddi). Fel y gwelir o'r isod, mae symudiadau bron a bod yn gytbwys, gyda Chaerdydd yn brif gyrchfan i gymudwyr o Ben-y-bont ar Ogwr.

Mae'r all-lif net ymylol cyffredinol bron i'w briodoli'n gyfan gwbl i gymudwyr sy'n mynd i Gaerdydd, gyda symudiadau o Ben-y-bont ar Ogwr i awdurdodau cyfagos yn cael eu cydbwysu'n gyffredinol. Nid yw'r patrwm hwn o gymudo i Gaerdydd yn cael ei ystyried yn bryder penodol o ystyried maint economi a marchnad swyddfeydd Caerdydd yn denu swyddi proffesiynol / gwasanaethau preifat proffesiynol sydd ar gyflogau uwch.




Commuting totals (all categories: method of travel to work (2001 specification)) for Bridgend:

- Inflow: 17,256 person(s) commute into Bridgend from other local authorities in the UK.
- Outflow: 18,040 person(s) commute out of Bridgend to other local authorities in the UK or abroad.
- Net change: Overall, commuting results in a population decrease of 784 in Bridgend.

Source: ONS, Census WU03UK - Location of usual residence and place of work by method of travel to work

[See more visualisations by Nomis](#)

Mae'r siart isod yn dangos patrymau'r symudiad mewn niferoedd ac yn dangos bod tua 5,000 o drigolion yn cymudo i Gaerdydd. Ym mhob ystyr arall mae gan Ben-y-bont ar Ogwr stori gymudo bositif, gyda'r cydbwysedd net sy'n cynnwys cymudo pellter byr i Ben-y-bont ar Ogwr o awdurdodau cyfagos.



At ddibenion Diweddariad EEBS, mae'r data cymudo hanesyddol hwn wedi'i ddefnyddio i lywio rhagolygon economaidd Experian. Gellir crynhoi modelu Experian fel datrys y galw a'r cyflenwad am lafur, gan ystyried llif cymudo rhwng ardaloedd lleol, ac mae'r llu llafur lleol wedi'i ddeillio drwy gymhwyso cyfraddau gweithgarwch economaidd y rhai 16+ oed. Mae'r galw am lafur hefyd yn cael ei foddelu drwy gysylltu'r galw am ardaloedd lleol â'r galw rhanbarthol am swyddi ar gyfer pob sector diwydiant. Mae gorlif yn llifoedd cymudo sy'n seiliedig ar batrymau hanesyddol (fel yr eglurir uchod). Mae papur dull sy'n egluro'r dull gweithredu yn fanylach yn cael ei atodi i'r Diweddariad EEBS (2021, SD70).

Mae rhagolygon EEBS wedi ystyried llif cymudo yn y gorffennol wrth benderfynu sut y bydd Pen-y-bont ar Ogwr yn ymateb i dwf economaidd a'r gweithlu ychwanegol uwchlaw'r waelodlin. Mae'r rhagolygon yn awgrymu y bydd 7,500 o breswylwyr ychwanegol o oedran gweithio (16+) yn cael eu cynhyrchu gan Strategaeth Twf y CDLI Newydd, sy'n cyfateb i 7,500 o swyddi newydd dros gyfnod y cynllun.

Fodd bynnag, heb ymateb tir cyflogaeth cadarnhaol drwy'r CDLI newydd, barn y rhagolygonydd economaidd yw mai dim ond 900 o'r bobl hyn fydd yn cael gwaith ym Mhen-y-bont ar Ogwr, a bydd cymudo allan yn cynyddu, ond dim ond gan 200 o bobl sy'n ffigur gymharol fychan, yn fwyaf tebygol i swyddi yng Nghaerdydd ac Abertawe. Heb ddigon o gyflenwad tir economaidd ym Mhen-y-bont ar Ogwr, ni ragwelir y bydd yr economi leol yn creu digon o swyddi i bawb, felly erbyn 2033 ychwanegir bron i hanner (3,500 o bobl) at gyfanswm y di-waith. Mae'r gweddill (2,900 o bobl) yn dod yn economaidd anweithgar, mae'r rhain yn bobl y cyfeirir atynt fel 'gweithwyr sydd wedi digalonni'.

Mae'r CDLI wedi ymateb yn gadarnhaol i'r rhagolygon hwn drwy ddyrannu digon o dir cyflogaeth dosbarth B i sicrhau bod cyfle i dwf economaidd ddarparu cyfleoedd cyflogaeth i'r holl bobl hynny y rhagwelir fel arall y byddant yn economaidd anweithgar. Mae hyn ar y sail y bydd busnesau am ehangu a/neu sefydlu ym Mhen-y-bont ar Ogwr o ganlyniad i'r cynnydd yn y cyflenwad llafur, gan arwain at y Fwrdeistref yn dychwelyd i gyflogaeth rithwir.

Mae'r sylfaen dystiolaeth wedi ceisio sicrhau bod digon o dir yn cael ei nodi yn y CDLI er mwyn peidio cyfyngu ar gyfleoedd i bawb ddod o hyd i waith, gan gynnwys y di-waith a'r rhai sydd wedi digalonni. Yn yr un modd, mae'r dull hwn wedi sicrhau y gellir cynnal y cydbwysedd cymudo net presennol dros gyfnod y cynllun drwy wneud y mwyaf o gyfleoedd i drigolion fyw a gweithio yn y Fwrdeistref Sirol a thrwy hynny wrthweithio'r angen i gymudo allan. Cyfeiriwch hefyd at SD40 Papur Cefndir 7: Cyflogaeth.

5. A yw lefel y ddarpariaeth tir cyflogaeth a nodwyd ym Mholisi SP11 yn briodol?

a) Sut mae'r ffigur cyffredinol o 71.7 hectar wedi'i ddeillio? A yw lefel y ddarpariaeth tir cyflogaeth yn gwbl gyfiawn ac yn cael ei chefnogi gan dystiolaeth gadarn a chredadwy?

Dadansoddodd EEBS 2019 (SD69) gyflenwad llafur, y defnydd o dir cyflogaeth a galw am lafur yn y gorffennol (drwy ragolygon economaidd) er mwyn penderfynu ar lefel y swyddi a'r tir cyflogaeth sydd ei angen i fod yn sail i'r CDLI newydd. Dangosodd y tri dull hwn bod angen darparu hyd at 60 hectar o dir cyflogaeth dros gyfnod y cynllun, neu 4ha y flwyddyn. Roedd hyn yn cynnwys 2 ha i reoli twf sylfaenol a byffer 2ha ychwanegol i reoli'r cyflenwad llafur posibl a'r galw am gyflogaeth sy'n deillio o'r Opsiwn Canol Twf, pe bai angen darpariaeth gofod B ar bob un o'r swyddi newydd hyn. Roedd y lefel hon o dir cyflogaeth yn darparu capasiti i ddarparu ar gyfer ychydig mwy o swyddi (333) na phobl gyflogadwy ychwanegol (266) y flwyddyn, gan ddarparu ychydig o arian wrth gefn pe bai creu swyddi newydd yn tueddu i fod yn fwy diwydiannol yn hytrach na defnyddiau swyddfa.

Er mwyn diwallu'r angen, adolygodd yr EEBS addasrwydd portffolio safleoedd cyflogaeth presennol y CDLI i benderfynu pa mor addas yw'r tir cyflogaeth presennol ar gyfer ei ailddyrranu. Cafodd yr holl ddyraniadau tir cyflogaeth presennol eu trin fel safleoedd treigl posibl ac felly'n destun asesiad lefel sylfaen cyfartal o'i gymharu â meini prawf cynaliadwyedd ac amgylcheddol ochr yn ochr â'r holl safleoedd ymgeisiol newydd. Roedd nodi cyfyngiadau amgylcheddol ac amwynder drwy'r gwaith hwn yn llywio'r asesiad o addasrwydd 18 safle, a oedd yn gyfanswm o 71.7ha, i ddiwallu'r angen a nodwyd. Ystyriwyd bod dyrannu ychydig yn fwy o dir na'r asesiad o angen yn awgrymu (lwfans gadarnhaol o 11.7 ha neu 0.8 ha pa) yn bragmataidd er mwyn caniatáu hyblygrwydd a chyflenwad wrth gefn, pe na bai'r cymysgedd o swyddi posibl yn wahanol neu dir nad yw'n bwrw ymlaen yn ôl y disgwyl. Mabwysiadodd y Strategaeth a Ffefrir yr argymhellion hyn i sicrhau tir cyflogaeth digon prin i ddiwallu anghenion a gofynion ystod o senarios cyflogaeth posibl yn y dyfodol. Nod hyn oedd helpu i leihau'r angen am gymudo allan a hybu mwy o gymunedau hunangynhwysol, rhyng-gysylltiedig yn unol â Gweledigaeth CDLI.

Ystyriodd Diweddariad EEBS 2021 (SD70) effeithiau economaidd y cynnydd yn y boblogaeth oedran gweithio a nodwyd yn nata demograffig newydd Llywodraeth Cymru (y senario mudo tymor byr PG ar gyfer 2018). Yn benodol, dadansoddodd hwn y cynnydd a ragwelir yn y gweithlu llafur gan asesu a oedd yr asesiad angen a'r cyflenwad tir a nodwyd yn yr EEBS (2019) yn parhau i fod yn ddigonol ar gyfer y CDLI newydd. Dangosodd yr Astudiaeth y gall y cynnydd cymesur hwn yn y boblogaeth oedran gweithio gael ei ddarparu'n foddhaol gan yr hyblygrwydd a'r lwfans a gynhwyswyd yn y cyflenwad tir cyflogaeth gwreiddiol a nodwyd ar y cam Strategaeth a Ffefrir. Bydd cynllunio ar y sail hon yn sicrhau nad yw'r economi leol yn cael ei chyfyngu rhag ymateb yn gadarnhaol i'r proffil poblogaeth iau (oedran gweithio) wedi'i sefydlu drwy'r Opsiwn Twf Canolig. Fodd bynnag, mae hyn yn gofyn am gadw'r holl safleoedd

cyflogaeth a ddyrannwyd arfaethedig (cyfanswm o 71.7ha i gyd, sy'n cynnwys bron pob parcel heb ei ddatblygu o fewn ystadau presennol), sy'n golygu bod y galw a'r cyflenwad mewn cydbwysedd.

Ystyrir 71.7ha y gorau er mwyn cyflawni ecwilibriwm rhwng nifer y cartrefi a ddarperir a'r cyfleoedd gwaith a ddisgwylir dros gyfnod y CDLI Newydd. Mae lefel y ddarpariaeth tir cyflogaeth felly yn cael ei ystyried yn gwbl gyfiawn ac yn cael ei gefnogi gan dystiolaeth gadarn a chredadwy.

b) A yw Polisi ENT2 yn gwahaniaethu'n glir rhwng safleoedd a ddyrannwyd a rhai sydd wedi'u hymrwymo? A yw'r safleoedd yn realistig ac yn economaidd hyfyw? ac a ydyn nhw'n rhydd o gyfyngiadau sylweddol ac yn gyflawnadwy yn ystod cyfnod y Cynllun?

Er mwyn cynnal lefel gynaliadwy o dir cyflogaeth ac yn seiliedig ar argymhellion yr EEBS (SD69), bydd Polisi ENT2 o'r CDLI Newydd yn diogelu'r safleoedd a nodir at ddibenion cyflogaeth. Bydd diogelu safleoedd ac adeiladau presennol, lle bo'n briodol ac yn angenrheidiol, yn helpu i ddiwallu anghenion cyflogaeth yr economi leol ac ehangach drwy ddarparu ffynonellau cyflogaeth hygyrch. Bydd dwysáu ac adnewyddu safleoedd a safleoedd a mangreoedd o fewn Polisi ENT2 yn dderbyniol mewn egwyddor, yn amodol ar gynigion sy'n bodloni polisiâu eraill yn y Cynllun. Mae hyn yn arbennig o wir am unrhyw safleoedd neu fangreoedd o'r fath sy'n cael eu tanddefnyddio, yn wag, neu'n dirywio. Mae Polisi ENT2 yn cydnabod bodolaeth yr ardaloedd cyflogaeth hyn ac yn ceisio, ynghyd â pholisiâu eraill, i gynnal eu defnydd yn y dyfodol at ddibenion cyflogaeth. Roedd y safleoedd gwarchoddedig a nodir ym Mholisi ENT2 yn destun adolygiad o fewn EEBS 2019 ac maent i gyd yn rhan o bortffolio'r safleoedd cyflogaeth presennol, gyda defnyddiau cyflogaeth sefydledig.

Lle mae capasiti heb ei ddatblygu yn bodoli o fewn y safleoedd hyn, mae cwantwm y tir heb ei ddatblygu wedi'i gynnwys o fewn y cyflenwad tir cyflogaeth yn y dyfodol ym Mholisi ENT1. Mae hyn yn cynnwys parceli heb eu datblygu o fewn ystadau cyflogaeth hyfyw presennol y mae'r EEBS 2019 yn cael eu hystyried yn rhydd o gyfyngiadau, y gellir eu cyflawni dros gyfnod y cynllun ac felly'n addas i'w hail-ddyrannu. Cafodd pob safle o fewn Polisi ENT1 a Pholisi ENT2 eu trin fel safleoedd treigl posibl ac felly'n destun asesiad lefel sylfaen gyfartal o'u cymharu â'r meini prawf cynaliadwyedd ac amgylcheddol ochr yn ochr â'r holl safleoedd ymgeisol newydd fel rhan o SA/SEA y Cynllun Adnewo. Roedd nodi cyfyngiadau amgylcheddol ac amwynderau drwy'r gwaith hwn yn llywio casgliadau'r EEBS o addasrwydd y portffolio safleoedd cyflogaeth presennol, oherwydd i ffurfio rhan effeithiol o'r cyflenwad tir cyflogaeth mae'n rhaid i bob safle fod yn dderbyniol yn fras o ran cynllunio a'u cyflawni. (Gweler Atodiad B yr EEBS).

c) A yw hierarchaeth safleoedd cyflogaeth yn briodol? ac yn gyson â gofynion y polisi cynllunio cenedlaethol?

Mae PPW11 yn pwysleisio'r angen i awdurdodau Cynllunio gefnogi'r ddarpariaeth o dir digonol i ddiwallu anghenion y farchnad gyflogaeth ar lefel strategol a lleol.

Yn unol â PPW, mae Polisi SP11 o'r CDLI Newydd yn gosod y fframwaith i alluogi darparu lefel gytbwys o dir cyflogaeth i ddarparu ar gyfer y swyddi newydd a nodwyd trwy'r Strategaeth Adfywio a Thwf Cynaliadwy. Mae'r dull hwn yn hanfodol er mwyn helpu i frwydro yn erbyn lefelau sylweddol o gymudo allan neu newidiadau i broffiliau mudo, a allai fel arall gael ei achosi gan ddiffyg sbardun economaidd digonol i annog a darparu ar gyfer creu swyddi pellach. Ystyrir hyn yn ddull anghyfyngedig a chadarnhaol i sicrhau bod amrywiaeth a chymysgedd o fathau o safleoedd ar gael ledled y Fwrdeistref Sirol hyd at 2033, gan ddarparu cwrpas digonol ar gyfer buddsoddiad parhaus heb amharu ar y cyflenwad tai.

Mae cyflawni portffolio eang a chytbwys o ddefnydd cyflogaeth yn ganolog i'r strategaeth economaidd. Bydd hyn yn caniatáu i'r economi leol ddenu defnydd cyflogaeth ddwys sy'n ychwanegu gwerth uwch gan gynnwys gwyddorau bywyd, adeiladu, ynni a datgarboneiddio, a sectorau telathrebu. Mae hyn yn ychwanegol at gefnogi a chynnal y sylfaen weithgynhyrchu sylweddol a defnyddiau dosbarth B traddodiadol sy'n agwedd bwysig ac yn sbardun twf i'r economi leol, nawr ac yn y dyfodol.

Er mwyn sicrhau cadernid yr economi leol yn y dyfodol, bydd y Cyngor hefyd yn annog ac yn cefnogi ailddatblygu, adnewyddu a rhesymoli'r stoc bresennol o adeiladau diwydiannol mwy o faint i wella ansawdd gofod llawr gwaith sy'n addas ar gyfer anghenion cyfoes yn arbennig ar gyfer Mentrau Bach a Chanolig (BBaCh) sydd mor bwysig i economi Cymru a Phen-y-bont ar Ogwr.

Mae'r safleoedd strategol yn cael eu gwahaniaethu oddi wrth safleoedd cyflogaeth eraill ar sail eu nodweddion ffisegol a lleoliadol, yn enwedig eu lleoliadau amlwg gerllaw ardaloedd cefn gwlad, a'u hagosrwydd at y rhwydwaith ffyrdd strategol. Maent yn cynrychioli'r asedau mwyaf i'r ardal o ran eu gallu i ddenu busnesau o safon uchel ynghyd â buddsoddiad ac felly'n cynhyrchu lefelau uchel o swyddi mewn modd a fydd yn cyfrannu at yr economi leol ac ehangach. O ystyried lleoliadau sensitif y safleoedd hyn, mae'r gofyniad am ddylunio a safonau amgylcheddol cyson uchel o fewn fframwaith cysyniad cyffredinol yn rhagofyniad ar gyfer datblygu, gan gynnwys mynediad trwy gyfrwng heblaw'r car. Bydd hyn yn creu cymysgedd o gyfleoedd cyflogaeth i'r gweithlu lleol mewn amgylchedd o ansawdd uchel, gan gyflawni amcanion cyflogaeth y CDLI. Mae'r Safleoedd Cyflogaeth Strategol (cyfanswm o 25ha) i gyd yn cael eu datblygu'n unigol gan y Cyngor a Llywodraeth Cymru. Mae perchnogaeth gyhoeddus y safleoedd hyn yn rhoi mwy o reolaeth o ran pryd a sut mae'r safleoedd yn cael eu cyflwyno.

Yn ogystal â'r Safleoedd Cyflogaeth Strategol, mae'r cynllun hefyd yn nodi amrywiaeth o Safleoedd Cyflogaeth a ddyrannwyd sy'n addas ar gyfer pob math o ddefnydd cyflogaeth o wahanol faint a math. Y Safleoedd Cyflogaeth a nodwyd ym Mholisi ENT1 yw'r rhai sydd â gobaith realistig o gyfrannu at gyflenwad tir cyflogaeth yn y dyfodol. Fe'u dosberthir ar draws y Fwrdeistref Sirol a byddant yn helpu i gyflawni'r Strategaeth Adfywio a Thwf Cynaliadwy drwy 'greu Lleoedd Cynhyrchiol a Mentrus'.

Er mwyn darparu'r dull 'Canol Tref yn Gyntaf' a amlinellir o fewn PPW a Cymru'r Dyfodol, mae'r Cyngor yn cydnabod mai defnydd swyddfa B1 sydd wedi'u lleoli orau yng nghanol trefi'r Fwrdeistref Sirol. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith mai canol trefi yw'r rhannau mwyaf hygyrch o'r Fwrdeistref Sirol ac maent yn addasu i fod yn fwyfwy aml-weithredol. Mae'r Safleoedd Cyflogaeth Strategol a Safleoedd Cyflogaeth a ddyrannwyd hefyd yn darparu cyfleoedd ar gyfer datblygu swyddi, er bod rhaid i ymgeiswyr ddangos bod safleoedd eraill o fewn canol trefi, a'r hierarchaeth ddilynol a nodwyd yn SP12, wedi eu hymchwilio a'u canfod yn anaddas.

d) Beth yw strategaeth y Cynllun ar gyfer dosbarthu tir cyflogaeth? a yw'n ystyried gofynion Cymru'r Dyfodol - Y Cynllun Cenedlaethol a mentrau adfywio eraill?

Heb os, mae'n bwysig i dwf yn y dyfodol gael ei gyfeirio tuag at y lleoliadau mwyaf effeithlon a chynaliadwy gyda seilwaith trafndiaeth sy'n cyd-fynd â nhw i annog safleoedd cyflogaeth hygyrch sy'n manteisio ar gyfleoedd teithio llesol. Fodd bynnag, mae'n bwysig i bawb gefnogi adnewyddiad economaidd-gymdeithasol cymunedau difreintiedig ar draws yr ardal weinyddol gyfan.

Mae'r CDLI Newydd yn dosrannu twf cynaliadwy tuag at aneddiadau sydd eisoes yn elwa o wasanaethau sylweddol, cyfleusterau a chyfleoedd cyflogaeth ac sydd fwyaf ffafriol i alluogi datblygiad sy'n seiliedig ar deithio. Mae'r dull hwn wedi ei lywio gan ganfyddiadau'r Aseiad Anheddiad (SD91) a sefydlodd hierarchaeth anheddiad cynaliadwy. Yn hynny o beth, ac yn seiliedig ar ystyried ystod gynhwysfawr o newidynnau, bydd twf cynaliadwy yn cael ei gyfeirio'n briodol at Brif Aneddiadau Pen-y-bont ar Ogwr a Phencoed ynghyd â Phrif Anheddiad Pîl, Mynydd Cynffig a Gogledd Corneli, a thwf adfywio tuag at Borthcawl a Maesteg a Chwm Llynfi.

Fel y gwelir o Bolisi ENT1, mae'r safleoedd cyflogaeth a ddyrannwyd wedi'u dosbarthu ar draws y Fwrdeistref Sirol yn unol â'r hierarchaeth anheddu ac mae ganddynt obaith realistig o gyfrannu at gyflenwad tir cyflogaeth yn y dyfodol. Felly bydd eu cadw yn y CDLI Newydd yn helpu i gyflawni'r Strategaeth Adfywio a Thwf Cynaliadwy drwy 'greu Lleoedd Cynhyrchiol a Mentrus'. Dangosir dosbarthiad gofodol tir cyflogaeth ymhellach yn Nhabl 6 y CDLI Newydd (a ailadroddir isod).

Dosbarthiad Gofodol Tai a Chyflogaeth, 2018-2033

Anheddiad	Tai (Unedau)	%	Tir Cyflogaeth Gwag (Hectarau/Swyddi)	%
Ardaloedd Twf Adfywio				
Maesteg (Prif Anheddiad – Haen 2)	742	9%	3.5 ha	5%
Porthcawl (Prif Anheddiad – Haen 2)	1,056	13%	0 ha	0%
Ardaloedd Twf Cynaliadwy				
Pen-y-bont ar Ogwr (Anheddiad Allweddol Sylfaenol – Haen 1)	3,489	42%	50.2 ha	70%
Pencoed (Prif Anheddiad – Haen 2)	891	11%	6.4 ha	9%
Y Pîl, Mynydd Cynffig a Gogledd Corneli (Prif Anheddiad – Haen 2)	1,106	13%	4.83 ha	6%
Y tu allan i Ardaloedd Twf Adfywio ac Ardaloedd Twf Cynaliadwy				
Porth y Cymoedd (Prif Anheddiad – Haen 3)	686	8%	6.4 ha	9%
Aneddiadau Lleol (Haen 3)	365	4%	0.4 ha	1%
Cyfanswm	8,335	100%	71.7 ha / 7,500 o swyddi	100%

Mae Pen-y-bont ar Ogwr yn parhau i fod y prif faes twf i adlewyrchu ei statws fel anheddiad isranbarthol sy'n ganolbwynt ar gyfer datblygiad masnachol, gwasanaeth a chyflogaeth i ddiwallu anghenion ardal eang y tu hwnt i ffiniau'r Fwrdeistref Sirol. Felly, mae cyfran y tir cyflogaeth gwag yn bwrpasol uwch na thwf tai mewn termau cymharol. Mae cymesuredd o ran tai a swyddi o fewn Pencoed, ac, i raddau ychydig yn llai, y Pîl, Mynydd Cynffig a Gogledd Corneli, er bod trigolion yr aneddiadau hyn hefyd yn elwa o nifer o opsiynau teithio cynaliadwy i gael mynediad i gyflogaeth ym Mhen-y-bont ar Ogwr ac yn bellach i ffwrdd yn rhanbarthol. Ym Maesteg a Chwm Llynfi, mae datblygiad cyflogaeth yn cyd-fynd yn gymesur â datblygiad preswyl er mwyn helpu i ddarparu lefel gynaliadwy a realistig o dwf. Cydnabyddir yr anghydbwysedd ym Mhorthcawl,

er ei bod yn debygol y bydd y mwyafrif o'r gyflogaeth yn y dref yn parhau i gael ei ddarparu drwy dwf arfaethedig yn y sectorau masnachol, hamdden a thwristiaeth. Y tu allan i'r Ardaloedd Twf, cynhelir Porth y Cymoedd fel lleoliad cyflogi pwysig, sy'n gwasanaethu ei gyffiniau yn ogystal â Chymoedd Ogwr a Garw. Fodd bynnag, mae materion capasiti trafnidiaeth ar hyn o bryd yn atal datblygiad sylweddol ychwanegol o fewn y maes hwn ar hyn o bryd.

